Ysbrydolwyd y cynigion hyn gan syniadau DJ a Noelle Davies, arloeswyr cynnar Plaid Cymru; Robert Owen, 'tadcu cydweithfeydd'; Raymond Williams; y mudiad Trawsnewid Trefi; y sector gwirfoddol; 'Dêl Newydd' y 1930au yn yr UDA, ac yn arbennig Awdurdod Dyffryn Tennessee; ymgyrch 'Cloddio dros Fuddugoliaeth' Byddin Tir y Menywod; prosiect Dyffrynnoedd Gwyrdd Aberhonddu a'r myrdd o gydweithfeydd cymunedol, mentrau cymdeithasol a rhwydweithiau ar raddfa fechan sydd yn bodoli ledled Cymru a thu hwnt.

A allwn ni droi'n syniadau cyfunol yn weithredoedd oddi fewn i ardal benodedig ym mlaenau'r cymoedd, gyda llwyddiannau sicr yn cael eu lledaenu'n ehangach ledled Cymru? Mae Plaid Cymru eisiau clywed eich syniadau. Beth fyddai'n eich ysgogi chi i fod yn rhan o'r gwaith? Anfonwch eich syniadau atom.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

**Leanne Wood AC, Plaid Cymru**



i fyny

uplift

Meredol

Mynnydd

downhill

# Cynllun Gwyrdd i'r cymoedd

Adnodd mwyaf y cymoedd yw eu pobl. Mae pobl eisiau byw gyda gwir ymdeimlad o gymuned. Ers yr aneddiadau cyntaf, mae pobl wedi dod at ei gilydd gan weithio ar yr egwyddor y gall ymgais ar y cyd gyflawni cymaint yn fwy nag ymgais unigolyn. Bu hyn yn arbennig o wir pan fydd cymunedau wedi dod tan fygythiad, ac yn rym dros newid, fel y cawsom ein hatgoffa gan ganmlwyddiant diweddar Terfysgoedd Tonypandy.

Yn y dyddiau cyn gwladwriaeth les gynhwysfawr, roedd pobl yn cydgyfrannu eu harian, eu sgiliau a'u llafur i greu sefydliadau i bawb. Adeiladwyd ysgolion, ysbytai, llyfrgelloedd, sefydliadau i'r glowyr a neuaddau lles oll yn gydweithredol, gan gymunedau ar gyfer cymunedau. A allwn ni ail-greu ein hanes a chyfrannu ar y cyd heddiw i adeiladu'r sefydliadau cymunedol newydd hynny sydd eu hangen arnom ni i sicrhau fod ein cymunedau'n gallu gwrthsefyll bygythiadau'r dyfodol, megis effeithiau niweidiol diweithdra hir-dymor, olew brig, cyflenwadau ansicr o fwyd ac ynni, a newid hinsawdd?

Mae prisiau bwyd a thanwydd eisioes y tu hwnt i bocedi nifer ar incwm isel a rhagwelir codiadau serth yn y dyfodol. Mae olew brig yn wir fygythiad, ynghyd â phrinder dŵr, ffosffadau a deunyddiau eraill ar raddfa fyd-eang, sy'n golygu y bydd costau, ynni, bwyd a thrafnidiaeth yn rhwym o godi. Gan fod Cymru ar ddiwedd bron pob cadwyn gyflenwi fyd-eang, mae'n holl-bwysig ein bod yn symud i economi mwy lleol a chynaliadwy. Gyda newidiadau sylweddol ar y gweill a fydd yn effeithio ar y meini prawf am hawlio budd-daliadau diweithdra, mae angen cynllunio nawr os ydym am atal pobl rhag cael eu taflu i dlodi dybryd.

A allwn ni sgiwio'r farchnad gyda galwad ar y cyd am fwyd a gynhyrchir yn lleol, ynni adnewyddadwy, mesurau arbed ynni yn y cartref a sefydliadau cymunedol? A all y cynnydd mewn cydweithfeydd newydd gael ei hybu a'i gefnogi gan y llywodraeth i wneud y gwaith angenrheidiol i gwrdd â'r galw hynny, tra'n creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi ar yr un pryd?

A allwn ni dynnu ynghyd egnïon ac adnoddau llywodraeth leol, cwmnïau ynni ac adnoddau gwirfoddol? Gellid defnyddio'r rhwydwaith o undebau credyd i greu cronfa newydd, gydweithredol – 'Cronfa Buddsoddi'r Bobl'. Byddai'r fath gronfa'n gallu cynnig benthyciadau cost isel a grantiau i berchnogion cartrefi a chyllid cychwynnol i gydweithfeydd gwyrdd neu fentrau cymdeithasol. A fyddai pobl yn cymryd y cyfle i gynyddu eu galluoedd micro-gynhyrchu ac effeithlonrwydd ynni yn y cartref, trwy fanteisio ar dariffau cyflenwi trydan a benthyciadau blaendal isel neu ddi-flaendal y gellid eu had-dalu trwy arbedion i filiau ynni ac elw o dariffau cyflenwi trydan?

**Rydym ni am wybod a fydd pobl yn barod i gefnogi'n weithredol a chyfrannu i'r fath gynllun. A fydddech chi'n ymrwymo i gartref di-garbon? A fydddech chi'n barod i fuddsoddi mewn cydweithfeydd cymunedol – gyda'ch amser, eich arian neu'r ddau?**



## Adeiladu ar yr hyn sydd gennym

Gall pawb wneud rhywbeth. Gall pawb wella eu sgiliau. A allwn ni hyfforddi pobl i addysgu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer economi newydd werdd? Mae yna bobl a all addysgu a phobl sy'n dymuno dysgu. A allwn ni ddod â'r bobl yma at ei gilydd?

Does dim rhaid ail-ddyfeisio'r olwyn. Mae prosiectau a rhwydweithiau di-ri yn bodoli'n barod ledled Cymru. Mae rhai yn dod â gwahanol genedlaethau ynghyd. Mae eraill yn cynhyrchu ynni adnewyddol a bwyd am bris isel, neu'n rhedeg cynlluniau mentora neu 'efeillio' i baru dysgwyr iau gyda'r rheiny sy'n meddu ar sgiliau a phrofiad. Ceir cynlluniau cyfnewid gwasanaethau a sgiliau, a adnabyddir fel banciau amser, yn ogystal â mentrau eraill i warchod yr amgylchedd. Mae gennym brosiectau sy'n cynnig cyfleoedd hyfforddi i bobl ifainc, yn ogystal â gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon neu gelfyddydol, oll yn defnyddio adnoddau sydd ar gael yn barod.

A allwn ni ddysgu'r gwersi o brosiectau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd ac o raglen Cymunedau'n Gyntaf i ddwyn y rhwydweithiau hyn ynghyd a chael gwared ar y rhwystrau rhag lledaenu prosiectau da? Bydd cyllid grantiau yn ansicr yn y dyfodol. A allwn ni gynllunio nawr er mwyn i'r grwpiau a'r mudiadau hyn fod yn gyllidol annibynnol a chynaliadwy yn y tymor hir? **Os gallwn, bydd gennym y potensial i weddnewid ein helyntion economaidd.**

# Astudiaeth 1: Modelau ariannol amgen

## Cymdeithas Ail-fuddsoddi'r Ardal Ddu (BCRS)

Mae'r BCRS yn cynnig benthyciadau o £10,000 hyd at £50,000 i fusnesau yn yr Ardal Ddu, Lloegr sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i les cymdeithasol, amgylcheddol neu economaidd yr ardal leol. Caiff ei berchen a'i redeg gan ei haelodau, ac fe gytunir ar fenthyciadau yn ystod cyfarfod wyneb yn wyneb gyda rheolwr datblygu busnes o'r mudiad cydfuddiannol yma. Dywedai y ddatganiad cenhadaeth:

*“To meet the demand for loans from small businesses, social enterprises and other organizations that contribute to the social, environmental and economic well-being of the area but are unable to access finance from traditional sources such as banks.”*

Hyd yn hyn mae'r gymdeithas wedi rhoi hwb i gyw-fusnesau ac wedi helpu sicrhau nifer o lwyddiannau. Mae'r BCRS yn gydweithfa gydfuddiannol nad sy'n dyrannu elw.

## Punt Totnes

Wedi ei lansio yn 2007, mae'r fenter Trawsnewid Trefi hon yn rhedeg cynllun arian amgen lleol cyfocrog yn nhref Totnes, Dyfnaint. Mae systemau arian lleol yn cynnig cyfle i gryfhau'r economi leol tra'n rhwystro arian rhag llifo allan.

Mae Punt Totnes (PT) yn gyfwerth ag un bunt sterling. Caiff ei chefnogi gan y sterling, ei dal mewn cyfrif banc a gellir ei chyfnewid mewn pedwar lleoliad yn y dre. Gellir gwario'r PT gyda busnesau sy'n cymryd rhan yn y cynllun – oddeutu 70 – gyda rhai ohonynt yn cynnig gostyngiadau am bwrcasau penodol a wneir â PT er mwyn annog ei defnydd. Gellir rhoi'r PT fel newid mewn siopau, gan annog ei chylchrediad a galluogi siopwyr i ddangos eu teyrngarwch i'r economi leol. Mae'r prosiect yn eiddo i'r gymuned leol er ei lles ei hun. Gellir cyfnewid y PT yn ôl i bunnoedd sterling, ond anogir ei defnydd er mwyn hybu'r economi leol.

## Banciau Amser a Glyncoch

Mae cyfranwyr yn 'cadw' eu hamser yn y banc trwy roi cymorth a chefnogaeth ymarferol i eraill, a gallant 'godi' amser pan fyddant angen gwaith wedi ei wneud eu hunain. Mae un awr o waith yn gyfwerth ag un credyd amser. Yn 2006, ymgwymerodd Cymunedau'n Gyntaf Glyncoch ag 'awdit dinasyddiaeth weithgar' ymysg y 3,000 o drigolion yng Nglyncoch yn Rhondda Cynon Taf. Dangosodd yr awdit fod 32,971 awr o 'waith am ddim' yn cael eu gwneud bob blwyddyn, yn bennaf drwy'r ganolfan gymunedol a'r clwb rygbi lleol. Defnyddiwyd y canlyniadau hyn i sefydlu 'rhwydwaith amser' lle rhoddir un credyd amser i berson am bob awr a roddant i'r gymuned. Gellir gwario credydau ar ddiwyddiadau hamdden, addysgiadol neu gymdeithasol ar raddfa gyfnewid awr-am-awr.



# Beth gall Llywodraeth Cymru ei wneud?

Ni all llywodraeth orfodi cydweithredu o'r brig ond gall gael gwared ar rwystrau a helpu i hyrwyddo'r amodau ble gall cydweithfeydd a rhwydweithiau cymunedol dyfu a ffynnu. Gall y llywodraeth helpu i greu'r galw am weithlu lleol a gall feithrin gallu er mwyn sicrhau bod modd ateb y galw.

## Helpu creu'r galw:

- Ymyrryd i sicrhau **bod contractau'r sector cyhoeddus yn cael eu teilwra i fusnesau bach lleol** trwy ymgorffori cymalau i gynnig cyfleoedd hyfforddi/prentisiaeth lleol, cyflwyno maen prawf ar leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ogystal â'r meini prawf 'gwerth gorau', a 'dadfwndelu' contractau i'w gwneud yn llai – hyn oll yn ffafrio cwmnïau bychain lleol. Byddai'n galluogi cydweithfeydd bychain cymunedol a busnesau lleol i gynnig am waith y sector cyhoeddus, eithr dim ond y gwaith hynny sy'n cael ei gynnig yn barod gan y sector cyhoeddus i gwmnïau preifat. Un brif nod gyffredinol fyddai i gadw gwasanaethau cyhoeddus cyfredol oddi fewn i'r sector cyhoeddus.
- **Gosod cyllidebau carbon lleol, wedi eu cysylltu â'r dreth gyngor, i sicrhau fod gan bob cymuned gyfrifoldeb i gyrraedd targedau gwyrdd.** Dylid dosbarthu'n gyfartal leoliadau ar gyfer isadeileddau amhoblogaidd megis pwerdai bychain, gweithfeydd trin gwastraff, ffermydd gwynt, boeleri biomas ayb, gan gynnwys y rheiny sy'n cyfrannu tuag at y nod o ailgylchu neu drin cymaint â phosib o'r gwastraff oddi fewn i ffiniau'r ardal a dod yn hunan-gynhaliol o ran gwastraff yn y tymor hir. **Dylid cynnig anogaethau treth leol i gymunedau sy'n cwrdd â'r targedau gwyrdd, gyda chosbau ariannol i'r rheiny nad ydynt yn gwneud hynny.** Dylai cyrff cyhoeddus wynebu cyllidebau carbon er mwyn hyrwyddo caffael lleol.



- **Sefydlu rhaglen ‘Adeiladu Adeiladau’r Gymuned’ i drawsnewid adeiladau treftadaeth segur megis tafarndai, clybiau, ysgolion, capeli a neuaddau lles y glowyr yn adnoddau cymunedol hollol gynaliadwy a modern.** Gallai’r canolfannau newydd gynnig gwasanaethau megis cyngor ariannol neu ofal plant, gwybodaeth am dechnolegau gwyrdd neu adnoddau dysgu eraill, addysg i oedolion ac unrhyw beth arall sydd ei angen ar y gymuned. Gellid gosod targed ar gyfer pob anheddiad o ryw 10,000 o bobl i gael adeilad cymunedol hygyrch yn rhedeg gwasanaethau, cyrsiau a gweithgareddau sydd eu hangen ac sy’n cael eu cynnig gan bobl leol. Byddai hyn yn creu’r galw am waith adfywio gwyrdd a dylid annog cwmnïau cydweithredol i wneud y gwaith hwn. Dylid sianelu’r elw ariannol posibl sydd ar gael i gymunedau lleol – gan gwmnïau ffermydd gwynt yn ogystal â grantiau cyfredol trwy gyllid y Loteri Fawr neu’r UE a nawdd lleol – er mwyn rhoi hwb i’r fath raglen adeiladu.
- Cynhyrchu **cynllun gweithredu clir yn rhwym i’r gyfraith i sicrhau fod bywyd gwyllt, tir ac ecosystemau’r ardal yn cael eu gwarchod.**
- Gosod amcanion mesuradwy: er enghraifft **fod gan ganran o gartrefi’r ardal beilot allyriadau carbon o 0% cyn diwedd tymor y llywodraeth**, gan gynyddu i gynnwys pob cartref o fewn ugain mlynedd; **fod 5% o’r holl fwyd a gaffaelir gan y sector cyhoeddus yn yr ardal beilot i darddu oddi fewn i ffiniau’r ardal beilot cyn pen pedair blynedd**, gyda chanran pellach oddi fewn i ddalgylch o 50 milltir, gan gynyddu’r targed dros amser wrth i fwy o fwyd gael ei gynhyrchu’n lleol.

## Astudiaeth 2. Cydweithfa Ynni Adnewyddadwy

### Y Cymoedd Gwyrddion, Bannau Brycheiniog

Mae'r Cymoedd Gwyrddion yn anelu i droi ardal Bannau Brycheiniog yn ardal sy'n cynhyrchu mwy o ynni nac a ddefnyddir, trwy ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy yn y gymuned a chefnogi cymunedau i leihau eu hallyriadau carbon. Bydd yr holl elw o weithfeydd y gymuned yn cael ei ail-fuddsoddi mewn prosiectau gostwng carbon yn y gymuned, megis rhannu beiciau trydan neu goetiroedd cymunedol sy'n darparu tanwydd o goed wedi ei reoli. Bydd un weithfa trydan dŵr ar y gweill sy'n eiddo i'r gymuned yn cynhyrchu 82% o'r trydan sydd ei angen ar y gymuned. O'i gyfuno â phum gweithfa breifat (a ddatblygir yn ogystal gan Y Cymoedd Gwyrddion), bydd yn gostwng ôl-troed carbon y gymuned o 137%.

Mae harnessu sgiliau ac arbenigedd lleol wedi bod yn rhan hanfodol o'r prosiect. *"Mae'n ddim rheoli rhanbarthol yn cynnwys gwirfoddolwyr gydag ystod eang o sgiliau ac arbenigedd, mewn meysydd o ecoleg i beirianeg a chyfrifeg,"* medd rheolydd y prosiect Grenville Hams. Mae tîm y Cymoedd Gwyrddion nawr yn gweithio gyda sefydliadau statudol yng Nghymru i gynorthwyo cymunedau eraill i ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd er mwyn gallu rhedeg prosiectau tebyg. *"Ryn ni'n credu fod potensial enfawr i ailgreu ein model ni mewn cymunedau eraill, ond... er mwyn llwyddo, rhaid i'r prosiectau hyn gael eu perchen a'u harwain o du fewn i'r gymuned"*.

### Cymoedd Gwyrddion yn y cymoedd?

Yn union fel y mae gan yr ardal o amgylch Aberhonddu gyfoeth o adnoddau naturiol a ffermdir, felly hefyd mae gan y cymoedd fynyddoedd, afonydd a fforestydd tan berchnogaeth gyhoeddus, yn ogystal â thiroedd eraill y gellid eu defnyddio i elwa ar ynni adnewyddadwy, yn arbennig cynhyrchu ynni dŵr.



# Helpu meithrin gallu:

## Cyllid

- **Creu ‘Cronfa Buddsoddi’r Bobl’ i ddarparu benthyciadau di-flaendal a grantiau i alluogi cartrefi a busnesau i wneud y gorau o’u heffeithlonrwydd ynni a’u gallu microgynhyrchu.** Gellid sefydlu hyn trwy dynnu ynghyd pŵer benthyg llywodraeth leol, cyllid yr UE, undebau credyd a’r cyllid sydd ar gael gan ddarparwyr ynni fel rhan o’u dyletswyddau statudol parthed newid hinsawdd, elw annisgwyl ffermydd gwynt, dirwyon am weithgareddau sy’n llygru, Cyllid Cymru ac unrhyw ffynonellau cyllido eraill. Yn cael ei rhedeg yn ddemocrataidd, yn gydweithredol ac ar hyd braich o’r llywodraeth, byddai’r gronfa yn dysgu gwersi oddi wrth dwf cymdeithasau adeiladu a’r mudiad cydfuddiannol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gallai’r gronfa hefyd ddarparu cyfalaf cychwyn busnes ar gyfer cydweithfeydd newydd yn ogystal â ‘benthyciadau cyfranddaliadau’ gyda graddfeydd ad-dalu isel ar gyfer buddsoddi mewn cydweithfeydd cymunedol. Byddai’r llywodraeth yn ymyrryd i warchod buddiannau’r gymuned leol.
- **Cynorthwyo cydlynw a rheoleiddio darparwyr ynni a’u cydweithrediad gyda Chronfa Buddsoddi’r Bobl i wneud y gorau o fuddiannau ynni adnewyddadwy â chymhorthdal (tariffau cyflenwi trydan) a’r defnydd o fesuryddion deallus.** Byddai hyn yn lleihau costau’r benthyciadau di-flaendal. Dylai benthyciadau fod yn hyblyg, yn galluogi ad-daliadau trwy arbedion ar filiau ynni neu drwy elw o dariffau cyflenwi trydan. Dylid cynnwys gwarant i gadw biliau cyfleustodau misol yn gyson hyd nes yr ad-delir y ddyled, gyda chodiadau prisiau cyfanwerthol yn ymestyn cyfnod y benthyciad yn hytrach na chynyddu’r ad-daliadau misol. Dylid trefnu i’r ddyled aros gyda’r cartref ac nid gyda’r perchennog ac i’r ddyled gael ei throsglwyddo pe gwerthid y tŷ yn ystod cyfnod y benthyciad, gan ffactora’r costau i mewn i’r pris pwrcasu. Dylid cyflwyno mesurau i roi dyletswydd ar landlordiaid cymdeithasol a phreifat i hybu effeithlonrwydd ynni yn y cartref ac ynni adnewyddadwy a greir yn y cartref yn y sector rhentu. Wrth ddwyn ynghyd gymdeithasau tai, darparwyr ynni a Chronfa Buddsoddi’r Bobl, gallai tenantiaid cartrefi cymdeithasol fwynhau costau gwresogi is, tra gallai’r taliadau o werthu ynni i’r grid ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer buddsoddiadau pellach. **Dylai cartrefi sy’n cyrraedd statws di-garbon allu gwneud elw o dariffau cyflenwi trydan o fewn ychydig flynyddoedd (os pery’r tariffau), gyda’r potensial o ryddhau cyllid i’w ail-fuddsoddi mewn cydweithfeydd cymunedol trwy brynu cyfranddaliadau.**
- **Hybu a chefnogi arian lleol, ‘Punt y Cymoedd’, ac arian lleol amgen hybrid eraill,** trwy annog y sector cyhoeddus i dderbyn taliadau ynddynt a’u gwario ar nwyddau a gwasanaethau i’w caffael yn lleol. Er enghraifft, gallai undebau credyd ddsbarthu arian mewn Punnoedd y Cymoedd (PC). Yn cael eu cefnogi gan sterling a’u cadw yn yr undebau credyd, gellid ychwanegu atynt gan gynilion. Gallai Banciau Amser gefnogi elfen o’r PC mewn cylchrediad, gan alluogi’r rheiny sy’n cynnig gwasanaethau gwerthfawr heb dderbyn gwobr ariannol i gael budd economaidd. Byddai’r elfen hwn yn fwiadol disgyn mewn gwerth o un flwyddyn ariannol i’r nesaf er mwyn annog gwario, gan fod felly’n symbyliad economaidd.



## Tir ar gyfer bwyd ac ynni

- **Sefydlu banc tir cymunedol fel y gallai llywodraeth Cymru gynnig termau lesio hir-dymor ffafriol i brosiectau ynni adnewyddol neu gydweithfeydd bwyd neu randiroedd.** Yn galluogi pobl y cymoedd i elwa o un o goedwigoedd trefol mwyaf Ewrop sy'n parhau tan berchnogaeth gyhoeddus, byddai angen asesiad manwl o dir a dyfrffyrdd cyhoeddus yr ardal i ddarganfod y safleoedd mwyaf addas. Gellid defnyddio'r tir gan gydweithfeydd cymunedol i gynhyrchu ynni dŵr o afonydd a dŵr mynydd, ynni gwynt a bwyd. O'i reoli'n gywir, gallai pren o'r goedwigaeth gael ei ddefnyddio i redeg cynlluniau gwresogi cymunedol ar raddfa fechan a llosgyddion pren mewn cartrefi.

## Trafnidiaeth

- **Datblygu cynllun integredig ar gyfer strwythur trafndiaeth y cymoedd** sy'n magu cysylltiadau rhwng y cymoedd, gan ystyried y lefel uchel o gartrefi heb ddefnydd car. **Ni ddylid cefnogi parcio am ddim mewn datblygiadau y tu allan i drefi, tra dylid lleihau neu gael gwared ar gostau parcio yn y trefi er mwyn annog siopa'n lleol.** Dylid ystyried ffyrdd o annog rhagor o gerdded a seiclo, yn arbennig ar gyfer teithiau o lai na dwy filltir. Dylid ymgorffori trefniadau i rannu ceir.
- **Asesu twneli rheilffordd segur i'w hail-agor; gellid ariannu hyn trwy godi tâl ar fasnachwyr sy'n darparu parcio y tu allan i drefi.** Dylai'r cynllun asesu dichonolrwydd hirdymor ail-agor rheilffyrdd a galw am drydaneiddio rheilffyrdd y cymoedd, yn ogystal â'u hintegreiddio gyda dulliau eraill o dtrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn hwyluso teithio rhwng y cymoedd.



## Gwella sgiliau

- **Creu rhaglen newydd brentisiaeth gyda chyflog deniadol, wedi ei chynllunio i gynnig cyfleoedd sgiliau a swyddi i bobl ifainc diwaith**, o ddewis mewn cydweithfeydd. Gallai rhaglen o'r fath ddefnyddio mentrau cyfredol i gynnig dewis amgen gadarnhaol i leoliadau disytyw gyda nemor dim rhagolygon o waith parhaol. Gallai'r gwaith gyfrannu at hunan-gynladwyedd hir-dymor ac felly at gynladwyedd cymunedau'r cymoedd a dylai sicrhau fod pobl yn cael y cyfleoedd hyfforddi sydd eu heisiau arnynt. Dylai pobl ifainc gael gwybodaeth am gyfleoedd prentisiaeth yn yr ysgol pan fyddant yn 14 mlwydd oed. Dylai hyn fod yn rhan o gynllun datblygiad personol a fyddai gan bob person ifanc fel hawl.
- Dylai cyllid ar gyfer y sefydliadau Addysg Uwch hynny sydd ag ymrwymadau i'r Cymoedd fod yn ddibynnol ar eu gallu i **ddangos cyswllt llwyddiannus gyda – a chefnogaeth i – gydweithfeydd gwyrdd**. Mae gan Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol newydd Blaenau'r Cymoedd, ynghyd â UWIC, Prifysgolion Casnewydd, Caerdydd ac Abertawe, yn ogystal â Phrifysgol Fetropolitan Abertawe, oll ymrwymadau i'w cefnfroydd ehangach.
- **Sefydlu Coleg Adeiladu Gwyrdd i Gymru** oddi fewn i Brifysgol Blaenau'r Cymoedd a'r sector addysg bellach. Ei gylch gorchwyl, i ateb gofynion llywodraeth Cymru, fyddai i ddarparu hyfforddwyr a chyrsgiau penodol a fydd yn datblygu sgiliau gwyrdd i ateb gofynion y rhaglen brentisiaeth a'r cydweithfeydd. Dylai cydweithio rhwng y sectorau addysg bellach ac uwch alluogi technolegau ynni adnewyddol arloesol a systemau cynhyrchu, cludo a dosbarthu bwyd effeithiol, cymdeithasol gyfiawn a chynaliadwy gael eu profi a'u cyflwyno. Bydd llwyddiant y Coleg Adeiladu Gwyrdd yn dibynnu ar gyflenwad da o athrawon arbenigol wedi eu hyfforddi ac yn gallu cynnig hyfforddiant ar lefel gymunedol. Dylid rhoi ystyriaeth i gynlluniau achredu newydd wedi eu cysylltu â hyfforddiant a ddiweddarir yn rheolaidd.
- **Helpu cydlynu tимоedd o wirfoddolwyr lleol**, gan gychwyn gyda rhwydweithiau cyfredol o wirfoddolwyr lleol a rhwydwaith ddiwygiedig Cymunedau'n Gyntaf. Gallai'r tимоedd hyn gychwyn drwy sefydlu cronfa ddata a fyddai'n galluogi pobl gydnaws i gael eu rhoi mewn cysylltiad â'u gilydd. Gallent gydlynu, gyfathrebu a marchnata gan ddefnyddio'r radio, papurau a gwefannau i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli. **Gallai 'byddin tir' gwirfoddol ganolbwyntio ar gadwraeth amgylcheddol, er enghraifft, a/neu gynllun cynhyrchu bwyd cymunedol**. Gallai gynnig cyfleoedd i bobl ennill profiad fel ymddiriedolwyr adeiladau cymunedol, neu i dderbyn hyfforddiant sylfaenol i allu ymgymryd â darparu gwasanaethau megis cyngor ariannol, gweithgareddau ar ôl ysgol i blant a phobl ifainc, ymwneud â 'chydweithfa gymunedol' neu gynllun glanhau'r amgylchedd ayb. Gallai ymgymryd ag archwiliad amser a sicrhau fod y rheiny sydd â diddordeb mewn sefydlu cydweithfeydd yn gallu cyrchu cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth busnes arbenigol i'w galluogi i ddyfeisio a gweithredu cynllun busnes realistig a fydd yn denu buddsoddiad.

## Astudiaeth 3. Bwyd: Fife, Todmorden a Glanyrafon

Mae yna eisamplau gwych o gymunedau'n creu strategaethau i gynyddu cynhyrchu bwyd lleol a chreu marchnadoedd lleol. O ganlyniad i'r lefelau uchel o fewnforio a chludo bwydydd gan archfarchnadoedd y Deyrnas Gyfunol, mae symud tuag at fwydydd lleol yn creu'r mantais o fod yn llai agored i godiadau mewn prisiau bwyd, sy'n gysylltiedig â chodiadau mewn prisiau tanwydd.

Mae **prosiect *One Planet Food*** yn Fife, yr Alban yn un o'r prosiectau meincnod sy'n helpu gweddnewid y modd y mae pobl lleol yn prynu, bwyta a thyfu eu bwyd. Maen nhw'n cefnogi prosiectau tyfu cymunedol, yn meithrin gallu ar gyfer mentrau bwyd cydfuddiannol a chaffael bwyd lleol gan y sector cyhoeddus. Maent hefyd yn darparu cynlluniau i ailgylchu maetholion o'r pridd, i ehangu hyfforddiant a mentergarwch bwyd lleol ac i helpu ffermwyr i gynhyrchu a marchnata bwyd mwy cynaladwy. Dywedant:

*“We have to change what we eat, in parallel with changing how we farm. To connect producers and consumers better we need to develop mutual models for financing, producing and distributing food as a mainstream part of the food economy. For this to happen, government policy has to be enabling at all levels.”*

<http://www.centreforstewardship.org.uk/oneplanetfood.htm>

Mae **Todmorden**, tref farchnad yng Ngorllewin Swydd Efrog yn anelu at fod yn gwbl hunan-gynhaliol erbyn 2018 gyda'u menter '*incredible edible*'. Mae'r trefnwyr wedi perswadio landlord cartrefi cymdeithasol lleol i roi hadau tyfu am ddim i denantiaid, wedi plannu llysiau a choed ffrwythau mewn llefydd cyhoeddus ac wedi trefnu cyrsiau ee yn dysgu 'chwilota' fel y gall trigolion lleol wybod sut i ddod o hyd i fwyd gwyllt am ddim.

<http://www.incredible-edible-todmorden.co.uk/>

Ym mhrifddinas Cymru, mae **Cymdeithas Farchnad Gymunedol Glanyrafon** yn darparu cynnyrch lleol ffres trwy ei marchnad ffermwyr wythnosol, sydd bellach wedi ehangu i rannau eraill o'r ddinas. Mae'r Gymdeithas hefyd wedi helpu sefydlu cydweithfa fwyd yn ardal Glanyrafon a gardd gymunedol sydd nid yn unig yn darparu cynnyrch ffres am gost isel ond sydd hefyd yn helpu creu cysylltiadau cymdeithasol cryfion rhwng yr amryfal gymunedau lleol. Yn ddiweddar maent wedi cymryd cyfrifoldeb am dir ar gyrion y Bont-faen a'i droi – gobeithio – yn fusnes garddwriaethol cydweithredol a chynaliadwy.

<http://www.riversidemarket.org.uk/>

## Hyrwyddo cyfranogiad

Er mwyn sicrhau fod syniadau a barn pobl yn gallu cyfrannu tuag at ddatblygiad parhaus y cynllun gwyrdd hwn, dylid darparu ar gyfer creu ‘rhwydwaith cydweithredol’ wedi ei ethol yn ddemocrataidd ac yn cynrychioli pawb sy’n cymryd rhan – gyda mwyafrif wedi ei sefydlu ar gyfer y cydweithfeydd a’r gwirfoddolwyr. Dylai’r rhwydwaith hwn arolygu gweithredu’r cynllun terfynol a sicrhau fod pawb sy’n ymwneud ag agweddau gwahanol y cynllun mewn cysylltiad â’u gilydd, yn rhannu arfer da ac yn gallu siarad ag un llais pan fo’r angen.

Dylai gwaith y bwrdd cydweithredol gael ei arolygu a’i ddal yn atebol gan ‘gynhadledd gydweithredol’ flynyddol mwy, a mwy cynrychioladol, yn gwahodd cyfranogiad gan bobl o’r holl gymunedau sy’n cymryd rhan. Dylai aelodaeth o’r gynhadledd fod yn agored, yn ddi-dâl, i bawb dros 16 mlwydd oed sy’n byw yn yr ardal.

Dylai gwaith a blaenoriaethau’r llywodraeth a’r sector cyhoeddus mewn perthynas â’r cynllun gwyrdd gael eu llywio gan y ‘gynhadledd gydweithredol’. Dylai’r gynhadledd hefyd graffu ar weithredoedd y llywodraeth a’r cynnydd tuag at amcanion y cynllun gwyrdd.

Er mwyn i’r fath gynllun lwyddo, bydd angen llywodraeth meddwl-agored, cefnogol eto’n barod i gymryd cam yn ôl, gweithlu o’r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol sy’n barod i’w gefnogi, a phobl frwdfrydig yng nghymunedau’r cymoedd, yn ogystal â pharodrwydd i gefnu ar wleidyddiaeth lwythol draddodiadol y pleidiau.

Mae llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i sicrhau fod y cynllun yn atgyfnerthu ac yn adeiladu ar yr isadeiledd gwasanaethau cyhoeddus presennol, gan olygu bod y system gyfan yn gweithio’n well ar gyfer cymunedau lleol. Mae llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i sicrhau cynnal a chadw gwasanaethau cyhoeddus oddi fewn i’r sector cyhoeddus. Ble bynnag y bo’n bosibl ac yn ddymunol, dylai gwasanaethau a chynhyrchion newydd ‘ychwanegol’ – megis adeiladau cymunedol, y rhaglen effeithlonrwydd ynni, y Gronfa Fuddsoddi Gyhoeddus, a bwyd a gaffaelir gan y sector cyhoeddus ac a dyfir mewn gerddi cymunedol – gael eu rhedeg yn gydweithredol, yn ogystal â’r gwasanaethau hynny a gafodd eu preifateiddio neu eu cynnig yn allanol yn y gorffennol ond a gaffaelir bellach gan y sector cyhoeddus.

Er mwyn osgoi cynllun a yrrir o’r brig i lawr, dylid sicrhau mai dim ond rôl ‘galluogi’ neu ‘symud rhwystrau’ fydd gan y llywodraeth. Mae gan lywodraeth rôl hefyd i sicrhau fod y cyfoeth a gynhyrchir yn cael ei ddsbarthu’n gytbwys a chyfartal.

## Pam lai?

Mae yna resymau di-ri paham na fyddai cynllun o'r fath yn llwyddo. Ni fydd yn hawdd troi syniadau da mewn i gydweithfeydd cynaliadwy sy'n cael eu rhedeg yn effeithiol ac sy'n gallu masnachu'n ddigon da ar brisiau fforddiadwy a chystadleuol i allu darparu cyfleoedd swyddi a hyfforddi hir-dymor. Mae llawer o'r rheiny sy'n barod ac yn abl i ddarparu craffter ac arweiniad busnes wedi gadael y cymoedd fel rhan o allfudo cyffredinol ein deallusion gorau. Ac mae gormod o bobl yn y cymoedd wedi colli gobaith a hyder yn ein gallu i wneud pethau dros ein hunain. Ni ellid beio pobl y cymoedd am beidio â chredu y bydd y cynigion hyn yn cyflawni dim mwy na strategaethau a mentrau blaenorol.

**Yn ddi-os fe fydd rhwystrau a sialensiau, ond fyddwn ni ddim yn gwybod a allwn lwyddo nes i ni geisio. Gyda'r anawsterau sy'n wynebu trigolion y cymoedd nawr a'r potensial am sialensau pellach o'n blaenau, onid oes dyletswydd arnom, er mwyn cenedlaethau'r dyfodol, i ni wneud y gorau gallwn?**

**Mae Plaid Cymru yn gofyn i drigolion y cymoedd gyfrannu tuag at gynllun terfynol. Ydy'r gefnogaeth yn bodoli dros ymdrech ddygn i'w weithredu? Hoffech chi chwarae rhan yn y gwaith o drawsnewid ein cymoedd? Rhowch wybod i ni drwy ymateb i'r cwestiynau ymgynghori canlynol.**

Rydym ni'n croesawu'ch adborth i gynigion y 'Cynllun Gwyrdd' hwn. Defnyddiwch y cwestiynau isod fel man cychwyn a theimlwch yn rhydd i ychwanegu unrhyw sylwadau pellach. Defnyddiwch y manylion cyswllt ar y dudalen gyferbyn i ddanfôn eich sylwadau.

1. Ydych chi'n cefnogi mewn egwyddor y syniad o gynllun fel y'i hamlinellir yn y 'cynllun gwyrdd' hwn?
2. A fydddech yn barod i gyfrannu'ch amser a'ch sgiliau i'r fath gynllun?
3. Beth yn eich tyb chi allai fod yn rhwystr rhag i bobl gymryd rhan? Allwch chi feddwl am ffyrdd o ddatrys y rhwystrau hyn?
4. Oes yna unrhyw sectorau neu grwpiau penodol y dylid eu targedu i sicrhau eu bod yn rhan o'r cynllun?
5. Pa ddadleuon gellid eu defnyddio i annog cyfranogiad yn y fath gynllun?
6. Sut allwn ni annog plant a phobl ifainc i gymryd rhan er mwyn sicrhau llwyddiant hirdymor y cynllun?
7. Pa gamau gellid eu cymryd i sicrhau cyfranogiad democrataidd pawb sy'n ymwneud â'r cynllun?
8. Beth yw'ch barn am ymwneud llywodraeth Cymru â'r cynllun?
  - a. Ydy targedau yn syniad da?
  - b. Oes sylwadau gennych ar y cynlluniau i hybu'r galw am swyddi ac ynni adnewyddadwy?
  - c. A gredwch fod y cynllun i adnewyddu hen adeiladau yn un da?
  - d. Beth yw'ch barn ar y 'fyddin o wirfoddolwyr' ac ar gynllun ecosystemau?
  - dd. Oes sylwadau gennych ar y banc tir?
  - e. Ydych chi'n cefnogi'r syniad o sefydliad ariannol newydd fel yr amlinellir yn y cynllun gwyrdd? A gredwch y byddai pobl yn defnyddio'r benthyciadau i wella eu cartrefi?
9. Allwch chi feddwl am unrhyw rwystrau pellach potensial i lwyddiant y cynllun hwn? Sut gellid gweithredu i orchfygu'r rhwystrau hyn?
10. Nodwch unrhyw sylwadau pellach os gwelwch yn dda.

# Hoffech chi fod yn rhan o'r gwaith?

Mae'r *Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd* yn ddogfen ymgynghorol sy'n eich gwahodd i ddweud eich dweud. Anfonwch eich sylwadau at:

Leanne Wood  
d/o Uned Datblygu Polisi Plaid Cymru  
Plaid Cymru, Tŷ Gwynfor  
Glanfa'r Iwerydd  
Caerdydd  
CF10 4AL

neu drwy ebost at: [polisi@plaidcymru.org](mailto:polisi@plaidcymru.org)

Cyhoeddwyd gan:  
Yr Uned Datblygu Polisi  
Plaid Cymru, Tŷ Gwynfor  
Glanfa'r Iwerydd  
Caerdydd  
CF10 4AL

[www.plaidcymru.org](http://www.plaidcymru.org)  
029 2047 2272

Hawlfraint Plaid Cymru, Mawrth 2011.

ISBN 0-905077-85-7